# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Hybrid: Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 30 Mehefin 2022

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## Cyfarfod cyhoeddus

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

**Dogfennau atodol:**

### 2 Adferiad Gwyrdd yng Nghymru

(09.30-10.45) (Tudalennau 1 - 84)

Syr David Henshaw, Cadeirydd - y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Papur - y Grŵp Adferiad Gwyrdd

Adroddiad gan y Ganolfan Gyllid - Y Grŵp Adfer Gwyrdd - Adroddiad ar Ddiweddariadau (papur preifat)

## Egwyl (10.45-11.00)

### 3 Trefniadau llywodraethu amgylcheddol interim

(11.00-12.00) (Tudalennau 85 - 95)

Dr Nerys Llewelyn-Jones - Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro Cymru

**Dogfennau atodol:**

Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro Cymru: Adroddiad Blynyddol 2021-22

## Egwyl ginio (12.00-12.30)

## Rhag-gyfarfod preifat (12.30-12.35)

## 4 Adferiad gwyrdd a threfniadau llywodraethu amgylcheddol interim

(12.35-14.05) (Tudalennau 96 - 102)

Gareth Cunningham, Pennaeth Cadwraeth Cymru - Cymdeithas Cadwraeth Forol

Yr Athro Steve Ormerod, Athro ym maes Ecoleg a Chyd-gyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Dŵr - Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd

Annie Smith, Pennaeth Polisi Natur a Gwaith Achos - RSPB Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur - Yr Athro Steve Ormerod (Saesneg yn unig)

Papur - RSPB Cymru (Saesneg yn unig)

## 5 Papurau i'w nodi

(14.05)

**Dogfennau atodol:**

### 5.1 Adferiad gwyrdd a threfniadau llywodraethu amgylcheddol interim

(Tudalennau 103 - 106)

**Dogfennau atodol:**

Papur gan Coed Cadw mewn perthynas ag adferiad gwyrdd a threfniadau llywodraethu amgylcheddol interim (Saesneg yn unig)

### 5.2 Teithio ar fysiau a'r rheilffordd yng Nghymru

(Tudalennau 107 - 109)

**Dogfennau atodol:**

Papur gan West Coast Partnership mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i deithio ar fysiau a'r rheilffordd yng Nghymru (Saesneg yn unig)

**5.3 Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol**

(Tudalennau 110 - 113)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Weinidog yr Economi at Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol mewn perthynas â chwestiynau a godwyd yn dilyn cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar 27 Ebrill

**5.4 Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol**

(Tudalennau 114 - 115)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Cadeirydd mewn perthynas â chyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ar 24 Mai

**5.5 Llywodraethu amgylcheddol**

(Tudalennau 116 - 118)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr agored gan sefydliadau amgylcheddol at y Prif Weinidog mewn perthynas â mynediad at gyfiawnder amgylcheddol

**5.6 Trafnidiaeth - terfyn cyflymder trefol**

(Tudalennau 119 - 120)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â therfyn cyflymder trefol diofyn o 20mya

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.05)

**Dogfennau atodol:**

## Cyfarfod preifat (14.05-14.30)

## 7 Adferiad gwyrdd yng Nghymru - trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 2

**Dogfennau atodol:**

## 8 Trefniadau llywodraethu amgylcheddol interim - trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 3

**Dogfennau atodol:**

## 9 Ystyried dull gweithredu ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU

(Tudalennau 121 - 128)

**Dogfennau atodol:**

Trafod dull gweithredu y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU (Saesneg yn unig)

## 10 Trafod adroddiad drafft y Pwyllgor ar gysylltedd digidol yng Nghymru

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft ar gysylltedd digidol yng Nghymru (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (CCEI), Mehefin 2022**
**Y Diweddaraf am y Grŵp Adferiad Gwyrdd**

1. Mae'r papur hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Adferiad Gwyrdd a'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a'r argymhellion yn:
   - Adferiad Gwyrdd: Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol.
   - Yr Adferiad Gwyrdd: Cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru

Mae'r papur yn nodi'r gwersi a ddysgwyd a'r camau nesaf arfaethedig o ran gwaith y Grŵp.

## Cefndir

2. Ym mis Mai 2020, gofynnodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i Syr David Henshaw gynnull Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu ar gyfer adferiad gwyrdd ar ôl y pandemig Covid a gosod cyfiawnder cymdeithasol fel egwyddor arweiniol, yn ogystal â datblygu cynllun ar y cyd i sefydlogi trydydd sector yr amgylchedd.
3. Roedd y gwaith yn adrodd i ford gron rhanddeiliaid y Gweinidog, a oedd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r sectorau bwyd, ffermio a physgodfeydd ochr yn ochr â sefydliadau'r trydydd sector amgylcheddol a CNC. O gydnabod bod aelodaeth y ford gron yn cynnwys holl gynrychiolwyr y sector, gwnaethpwyd penderfyniad penodol i ddod â gwahanol safbwyntiau ynghyd i helpu i lunio'r cyfle. Cytunodd ystod eang o uwch arweinwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gymryd rhan (gweler Atodiad 1). Sefydlwyd y grŵp i gynnull gweithredu ar y cyd, a phrofi ffyrdd o weithio mewn modd ystwyth. Cydnabuwyd nad oedd yn grŵp cynrychioliadol, ond yn un a oedd yn defnyddio cysylltiadau'r aelodau i greu rhwydweithiau a chysylltiadau cryfach er mwyn cyflawni.
4. Cydweithiodd y grŵp drwy haf a dechrau hydref 2020, gyda galwad am 'syniadau da' yn arwain at gyflwyno 168 o gynigion. Penllanw hyn oedd cyhoeddi'r ddau adroddiad ddechrau mis Tachwedd 2020. Arweiniodd yr adroddiadau hyn at nodi a dyrannu dros £6m o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi meysydd blaenoriaeth, yn ogystal â rhaglen grant benodol i sefydlogi sector yr amgylchedd. Er mwyn manteisio ar y momentwm, cytunodd aelodau'r grŵp i greu Partneriaeth Cyflenwi, ac ymrwymwyd adnoddau staff i gefnogi cam nesaf y gwaith.
5. Un o'r "syniadau da" proffil uchel oedd creu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol. Roedd staff o'r Bartneriaeth Cyflenwi o blaid datblygu'r syniad hwn, a hwyluswyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu a chyfathrebu gyda bron i 200 o gyfranogwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo nodyn cysyniad, a rhyddhawyd £166,598 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achos busnes manwl. Mae'r uchelgais ar gyfer y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn cyd-fynd o ddifrif â diffiniad y Grŵp o Adferiad Gwyrdd a Theg, ac yn ysgogi pobl ledled Cymru i gefnogi adferiad natur, gan weithredu fel llwyfan sy'n cysylltu pobl o bob oed â chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sy'n seiliedig ar natur, prentisiaethau, cyflogaeth, menter a gwirfoddoli.
6. Mae'r grŵp hefyd wedi creu cysylltiadau â gwaith Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) ar Adferiad Glas. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi rhoi cymeradwyaeth i'r Grŵp i barhau i ddatblygu'r dull gweithredu ar draws tri maes galluogi allweddol: Llythrennedd Cefnforol, Buddsoddi Cynaliadwy a Meithrin Gallu.

## Adolygiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr Adroddiadau

7. Yn ystod gwanwyn 2022, comisiynwyd The Funding Centre gan CNC i adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr adroddiadau Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu ac adroddiad Yr Adferiad Gwyrdd: Cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru. Yn ogystal â gwneud adolygiad desg cyflym o'r dystiolaeth, mae The Funding Centre wedi cyfweld ag ystod eang o randdeiliaid i nodi llwyddiannau ac unrhyw rwystrau neu heriau newydd sy'n cael eu hwynebu gan sefydliadau o ran cyflawni pethau.

8. Mae'r Adroddiad newydd yn cynnwys (Gweler Atodiad 1 ar gyfer adroddiad llawn The Funding Centre – Drafft Gweithio):
    - Adolygiad o dueddiadau a mentrau newydd, gan nodi unrhyw newidiadau arwyddocaol (ers hydref 2020) i'r dirwedd gyflenwi.
    - Adolygiad o'r cynnydd a wnaed ar brosiectau yn yr adroddiad Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu a'r heriau a ddaeth i'r amlwg wrth symud pethau ymlaen.
    - Adolygiad o "gyflwr" presennol sector yr amgylchedd yng Nghymru ac unrhyw faterion newydd sydd wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi adroddiad Yr Adferiad Gwyrdd: Cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru.
    - Casgliadau ac argymhellion.

9. Mae The Funding Centre yn dod i'r casgliad bod uchelgais gyffredin o hyd ar gyfer adferiad gwyrdd a theg, a chefnogaeth gref i'r egwyddor o ddatblygu gweithgarwch o amgylch cyfres o Flaenoriaethau ar gyfer Gweithredu. Serch hynny, mae rhanddeiliaid yn pryderu y gallai'r cyfle i weithredu fod yn diflannu wrth i gostau byw a'r rhyfel yn Wcráin lyncu'r sylw, a bod angen i'r Grŵp Adferiad Gwyrdd fabwysiadu mwy o ymdeimlad o frys. Mae ymchwil The Funding Centre yn cadarnhau bod angen cymorth ar y cyrff anllywodraethol amgylcheddol o hyd i ddiogelu eu cydnerthedd. Nodwyd bod buddsoddi yn y sector a chreu deinameg newydd gyda chyllidwyr a llunwyr polisi yn ffactorau a allai ddatgloi potensial y sector i arwain yn weithredol wrth gyflawni yn erbyn yr uchelgeisiau a bennwyd ar gyfer adferiad gwyrdd a theg.

## Adroddiad Adferiad Gwyrdd: Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu

10. Roedd yr adroddiad Adferiad Gwyrdd: Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu yn crynhoi ystod o gamau gweithredu ymarferol â blaenoriaeth ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig fel rhan o adferiad Cymru o'r pandemig. Yn dilyn yr alwad agored am syniadau, derbyniwyd 168 o gynigion amrywiol gan grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, elusennau, cyrff cyhoeddus, cwmnïau preifat, grwpiau amgylcheddol ac unigolion o bob cwr o Gymru. Roedd y sefydliadau'n cynnwys rhai â ffocws clir ar yr amgylchedd, yn ogystal â llawer o rai eraill sy'n canolbwyntio ar greu swyddi a sgiliau, lliniaru newid hinsawdd ac ymaddasu. Roedd y syniadau'n dangos amrywiaeth o gamau gweithredu a oedd yn amrywiol iawn o ran graddfa, lleoliad, uchelgais a pharodrwydd.

11. Cafodd y cynigion eu dadansoddi a'u dethol yn brosiectau "blaenoriaeth un" a "blaenoriaeth dau" ar draws tri maes gweithgarwch eang y byddai eu hangen i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur a chyfiawnder cymdeithasol.

| Blaenoriaeth Gweithredu | Prosiectau Blaenoriaeth Un | Prosiectau Blaenoriaeth Dau |
|---|---|---|
| **Atebion ar Sail Natur**<br>Camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth o ecosystemau ar dir a môr. | 7 | 8 |
| **Trawsnewid ein systemau economaidd-gymdeithasol**<br>Creu economi gylchol sy'n cefnogi natur ac yn creu cyfleoedd ar gyfer swyddi a datblygu sgiliau. | 33 | 35 |
| **Hwyluswyr yr Adferiad Gwyrdd**<br>Sgiliau, prentisiaethau a chaffael | 9 | 5 |
| Cyfansymiau | 49 | 48 |

12. Yn ogystal â chreu'r rhestr Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu, tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at y potensial i'r grŵp ddefnyddio ei rym cynnull i hwyluso ac annog camau gweithredu lefel uchel a fyddai'n "ysgogi trafodaeth a sbarduno gweithredu".

13. Fel rhan o ymrwymiad y Grŵp i gefnogi'r Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu, sefydlwyd Partneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd. Ynghyd ag unigolion o sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y Grŵp Adferiad Gwyrdd, ymrwymwyd amser ac adnoddau i gynnal sesiynau un i un archwilio pa mor barod yw'r cynigion a'r gofynion cymorth; cynhaliwyd digwyddiadau i hwyluso cyfleoedd ar gyfer cyd-gynhyrchu; a datblygwyd yr uchelgais a'r achosion busnes ar gyfer cynigion. Mae'n bwysig cydnabod gwaith ac ymdrech y tîm i ysgogi, hwyluso a chefnogi cynnydd a symud pethau ymlaen, gan baratoi cynigion i symud i'r cam cyflawni nesaf.

14. Ni cheisiodd The Funding Centre greu dadansoddiad manwl o bob cyflwyniad. O ystyried graddfa a natur amrywiol pob cynnig, yn ogystal â natur amrywiol y sefydliadau sy'n cynnig, ni fyddai hyn wedi bod yn ymarferol o fewn yr amserlenni. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'n ddefnyddiol creu rhyw ffordd o fonitro cynnydd ar brosiectau unigol yn y dyfodol er mwyn gallu cydlynu a hysbysu'r gweithgarwch yn effeithiol.

15. Mae'r adroddiad yn nodi bod nifer sylweddol o brosiectau wedi symud ymlaen i ryw raddau. Mae rhai cynlluniau strategol mawr, megis y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, wedi'u datblygu'n weithredol tra bod nifer fwy o gynlluniau eraill wedi ceisio treialu neu brofi eu syniad Blaenoriaeth ar gyfer Gweithredu drwy gynllun peilot, gan sicrhau cyllid ar raddfa lai, neu adnoddau o gyllidebau presennol. O ystyried nad oes ffrwd ariannu glir ar gyfer y Cynigion Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu, mae gweld cystal cynnydd yn rhywbeth i'w ganmol ac mae'n adlewyrchu lefel ymrwymiad a dyfeisgarwch unigolion a sefydliadau i weithredu ar yr agenda hwn.

16. Mae cynigion Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu eraill nad ydynt wedi symud ymlaen. Er bod pob sefydliad wedi parhau i ddatblygu syniadau ynghylch y cynigion hynny ac yn credu bod yr achos dros newid yn parhau'n gryf, cyfeiriwyd at rai rhwystrau sylweddol sydd wedi atal cynnydd gwirioneddol. Yn ôl y disgwyl, roedd diffyg cyllid a gallu yn uchel ar y rhestr honno o rwystrau. Fodd bynnag, nododd yr ymatebion fod diffyg arweinyddiaeth ac eglurder yr un mor broblemus hefyd.

17. Mae rhai o uchafbwyntiau'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr adroddiad Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu yn cynnwys:

18. ***Cefnogi'r dyraniad o £5.3m o gymorth gan Lywodraeth Cymru.***
Oherwydd pwysau ariannol diwedd blwyddyn, y dewis doeth oedd defnyddio mecanweithiau sefydledig i hwyluso gwariant, gyda dyraniad yn cael ei gyflawni drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i Awdurdodau Lleol, i'r Parciau Cenedlaethol a detholiad o brosiectau llai. Cydnabuwyd nad oedd hyn yn ddelfrydol, ond roedd yn ddull tactegol i sicrhau ein bod yn cefnogi gwaith adfer

gwyrdd ar lawr gwlad mewn modd amserol. Mae CLlLC ac Awdurdodau Lleol o'r farn bod defnyddio'r cyllid Adferiad Gwyrdd i gyflawni themâu blaenoriaeth yn hynod lwyddiannus.

19. ***Y cynnig ar gyfer Gwasanaeth Natur Cenedlaethol.***
   a) Fel prosiect Blaenoriaeth Un, helpodd y Bartneriaeth Cyflenwi i sbarduno datblygu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol ar ddechrau 2021.
   b) Datblygwyd y cynnig ar y cyd ac mae wedi pwyso ar gronfa helaeth o dystiolaeth a syniadau a gafodd eu cynhyrchu gan randdeiliaid, ac sy'n parhau i gael eu cynhyrchu ganddynt. Mae ystod eang o unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau ar draws pob sector wedi ymgysylltu â'r broses, gan gynnwys: sefydliadau trydydd sector sy'n ymwneud â darparu amrywiaeth o raglenni amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol; nifer o awdurdodau lleol a Phartneriaethau Natur Lleol; adrannau amrywiol yn Llywodraeth Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; Parciau Cenedlaethol ac AHNE; darparwyr addysg a hyfforddiant gan gynnwys colegau a Lantra; sefydliadau ieuenctid; sefydliadau busnes; sefydliadau ffermio a choedwigaeth.
   c) Cwblhawyd gwaith cydlynu gan y Food, Farming and Countryside Commission a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gyda mewnbwn gan Peter Davies (Cadeirydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Cadeirydd Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG)).
   d) Bydd y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn darparu llwybrau i bobl gyrchu a gweithio mewn swyddi gwyrdd, er mwyn sicrhau bod y piblinellau sgiliau a hyfforddiant ar waith i fodloni'r cyflenwad tebygol o swyddi sy'n gysylltiedig â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Wrth wneud hyn, y nod hefyd yw cyfrannu at roi hwb i'r newid o 'sector amgylcheddol' i economi sy'n greiddiol wyrdd; a sicrhau manteision ehangach i unigolion a lles cymunedol. Bydd y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn gweithredu fel llwyfan sy'n cysylltu pobl o bob oed â chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sy'n seiliedig ar natur, prentisiaethau, cyflogaeth, menter a gwirfoddoli.
   e) Er mwyn dangos y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn ymarferol, mae'r Tîm wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd fel mabwysiadwr cynnar, gan nodi ystod o weithgareddau lle gellid gwireddu uchelgeisiau ar gyfer Gwasanaeth Natur Cenedlaethol ar draws y rhanbarth, gan amlinellu sefyllfaoedd dichonol.
   f) Cafwyd penderfyniad gweinidogol i gefnogi peilot Gwasanaeth Natur Cenedlaethol ar 11 Mai, gyda £166,598 o gymorth refeniw tuag at gynllun peilot y Gwasanaeth yng Nghymru. Bydd hyn yn darparu'r gallu i ddatblygu'r cynnig ymhellach gyda gofyniad i lunio cynllun busnes llawn ar gyfer ardal arddangos Parc Rhanbarthol y Cymoedd o fewn y 6 mis cyntaf. Bydd tîm y prosiect yn ceisio ymestyn hyn i gynnwys ardal arddangos yn y gogledd.
   g) Nod Tîm y Prosiect yw bod mewn sefyllfa lle mae'r ardaloedd arddangos yn barod i gychwyn yn llawn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf, gyda chynllun i symud i Wasanaeth Natur Cenedlaethol Cymru gyfan o fewn amserlen i'w chytuno.
   h) Bydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Food, Farming and Countryside Commission yn parhau i arwain camau gweithredu ar y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol gyda chymorth darparwyr eraill, gan gynnwys yr RSPB. Mae cyfres o gyfarfodydd cynllunio gyda rhanddeiliaid wedi'u trefnu ym mis Mehefin. Mae gwefan gychwynnol wedi'i sefydlu: https://www.gwasanaethnaturcenedlaethol.cymru/

20. ***Datblygu prosiect Asgwrn Cefn Gwyrdd Ynys Môn.***
   a) Mae Glasffordd Môn yn weledigaeth i ddatblygu coridor gwyrdd parhaus o ansawdd uchel ar gyfer teithio llesol (cerdded a beicio), bywyd gwyllt a thirwedd ar draws Ynys Môn, o Niwbwrch yn y de i Amlwch yn y gogledd. Menter Môn sy'n arwain y prosiect, gyda chefnogaeth gan Grŵp Llywio wedi'i ffurfio o randdeiliaid allweddol.
   b) Amlygodd profiad y prosiect hwn natur gymhleth y dirwedd ariannu, a daeth heriau i'r amlwg o ran y broses gyllido a rhoi syniadau da ar waith. Ym mis Mawrth 2021, croesawodd y prosiect grant o £145K drwy Lywodraeth Cymru ar gyfer y cam cychwynnol, ond roedd yr arian wedi'i rwymo gan y broses diwedd blwyddyn heb unrhyw amser ar gyfer gwariant cyfalaf. Roedd angen hefyd am

drafodaethau pellach i gytuno ar ffordd ymlaen a oedd yn bodloni'r fframwaith ariannol ar gyfer gwariant grant ond a oedd hefyd yn caniatáu sicrhau'r deilliant gwerth gorau o'r grant. Amlygodd hyn yr angen am hyblygrwydd.

c) Mae'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Glasffordd Môn bellach ar y gweill gyda rhywfaint o waith cyfalaf yn cael ei wneud. Fodd bynnag, mae hwn yn brosiect uchelgeisiol gyda dros 40 o brosiectau posibl wedi'u nodi, yn amrywio o ran math, lleoliad, graddfa, rhaglen a chost. Cafodd y rhain eu chwynnu i restr fer gychwynnol o saith prosiect i'w datblygu i'r cam cysyniad. Bydd cyllid yn ystyriaeth bwysig i gyflawni'r weledigaeth wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

21. ***Hwyluso cysylltiadau a chydweithredu ar draws Prosiectau Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu.***
    a. Hwylusodd y Bartneriaeth Cyflenwi ddigwyddiadau cydweithredol a oedd yn dwyn ynghyd y Prosiectau Blaenoriaeth gyda diddordebau cyffredin. Roedd y rhain yn cynnwys pynciau fel bwyd a systemau bwyd, datgarboneiddio cartrefi a chyllid arloesol. Roedd cyfranogwyr ar draws y sesiynau hyn yn awyddus i barhau â'r sgyrsiau ac roedd ewyllys, egni a brwdfrydedd pendant i gydweithio o amgylch y themâu a datblygu gweithredu cydweithredol. Roedd galwad benodol i ddefnyddio'r broses Adferiad Gwyrdd i helaethu a llunio hynny.
    b. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyllid Arloesol gan Lywodraeth Cymru sydd bellach yn cynnull y grŵp aml-randdeiliad sy'n edrych ar gyllid arloesol ar gyfer cadwraeth natur yng Nghymru.

22. Mae adroddiad The Funding Centre yn nodi bod rhanddeiliaid yn dal i deimlo bod gwerth i'r ymarfer Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu a'r arweinyddiaeth a'r her a ddarperir gan y Grŵp Adferiad Gwyrdd. Roedd y pŵer i gymeradwyo syniadau a chynnull gweithgarwch cydweithredol yn cael ei werthfawrogi'n fawr, gan ychwanegu arweinyddiaeth strategol glir ac ysgogiad i'r agenda.

## Adroddiad Yr Adferiad Gwyrdd: Cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru

23. Archwiliodd adroddiad Yr Adferiad Gwyrdd: Cefnogi'r Sector Amgylcheddol yng Nghymru sefydlogrwydd a chydnerthedd y sector amgylcheddol yng Nghymru, gyda'r nod o lywio'r drafodaeth ehangach am y ffordd orau o gefnogi'r sector i greu cyfleoedd ar gyfer 'adferiad gwyrdd' gwirioneddol. Cwblhawyd yr adroddiad gan yr ymgynghorwyr ymchwil annibynnol, The Funding Centre. Edrychodd yr adroddiad ar sefydlogrwydd a chydnerthedd y sector cyn Covid, ac yna archwiliodd heriau, cyfleoedd a blaenoriaethau cymorth allweddol ar gyfer cyrff anllywodraethol amgylcheddol wrth iddynt ddal ati i weithio a dechrau edrych y tu hwnt i'r pandemig.

24. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn, ar ddechrau 2021, sicrhaodd Llywodraeth Cymru £900K o gyllid i'w ddosbarthu drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i gefnogi cynaliadwyedd y sector. Dyfarnwyd 19 o Grantiau i ystod eang o gyrff anllywodraethol amgylcheddol a chyrff cymorth yn y sector i ddarparu cymysgedd hynod amrywiol o ymyriadau. Roedd y gweithgarwch yn cynnwys gwella ymgynghori â chefnogwyr a'r cyhoedd, hyfforddiant a chymorth codi arian, datblygu prosiectau, datblygu sgiliau dylanwadu, cynllunio busnes a datblygu rhwydwaith. Er gwaethaf cyfnod byr iawn o amser ar gyfer gwario'r arian, cafodd dderbyniad da iawn ac roedd y gwerthusiad o du'r prosiectau yn gadarnhaol.

25. Fel rhan o'r gweithgaredd hwn a ariannwyd, cyflwynodd Cyswllt Amgylchedd Cymru raglen o hyfforddiant i aelodau gyda ffocws arbennig o gryf ar hyfforddiant Amrywiaeth a Chynhwysiant. Comisiynodd Cyswllt Amgylchedd Cymru adroddiad hefyd ar gyllid arloesol ar gyfer y sector amgylcheddol i wella'r ddealltwriaeth o dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran cynhyrchu arian yn ogystal â chyfeirio cyfleoedd nad ydynt o reidrwydd yn cael eu defnyddio'n ddigonol.

26. Ar ddechrau'r pandemig, aeth Llywodraeth Cymru a CNC ati'n gyflym i sefydlu fforwm gyda sector yr amgylchedd i rannu mewnwelediadau a materion sy'n dod i'r amlwg. Cyfarfu'r fforwm drwy 2020 a 2021 ac mae bellach wedi esblygu yn Grŵp Galluogi Sector yr Amgylchedd, dan gadeiryddiaeth yr Athro Steve Ormerod, grŵp a sefydlwyd ym mis Mawrth 2022. Gyda chynrychiolwyr o gyrff anllywodraethol

amgylcheddol a chyrff ariannu, mae'r grŵp newydd yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu cydnerthedd, gallu ac effaith y sector.

27. Mae'r adolygiad gan The Funding Centre yn 2022 yn cydnabod bod casgliadau ac argymhellion adroddiad 2020 yr un mor ddilys yn 2022. Mae'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn dal angen cymorth i feithrin cydnerthedd, gallu ac effaith y sector. Mae creu Grŵp Galluogi Sector yr Amgylchedd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol.

## Prif Argymhellion Adroddiad The Funding Centre 2022

28. Daw'r Argymhellion isod o adroddiad 2022 gan The Funding Centre ac maen nhw'n ymwneud â'r gwaith ar Flaenoriaethau ar gyfer Gweithredu ar gyfer adferiad gwyrdd a theg a chydnerthedd sector yr amgylchedd. Mae sylwadau ac awgrymiadau mwy penodol wedi'u cynnwys yng nghorff yr adroddiad a'i argymhellion manwl.

***29. Parhau i ddatblygu a buddsoddi yn y model Adferiad Gwyrdd a Theg***

a) Mae'r model uchelgeisiol a chydweithredol iawn y mae'r Grŵp Adferiad Gwyrdd yn ei ddatblygu yn un hynod deilwng. Mae'r broses yn amherffaith, ond mae cefnogaeth eang a photensial gwirioneddol i'r bwriad. Mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn mynnu dull newydd o weithio gyda chyllidwyr a rhanddeiliaid eraill, un sy'n fwy cydweithredol ac sydd â chyd-gynhyrchu yn ganolog iddo. Rhaid i'r dull hwn gael ei ddatblygu a'i fireinio'n barhaus, a rhaid rhannu llwyddiannau a heriau'n agored ac yn onest gyda phawb sydd ynghlwm wrth y gwaith.

b) Mae gallu'r Grŵp Adferiad Gwyrdd i gysylltu gwahanol sectorau a dod â rhanddeiliaid gwahanol at ei gilydd yn amlwg yn gweithio i raddau. Mae'r gallu hwn i gynnull yn dod yn fater o frys cynyddol, gan fod angen i ni weithio i fynd i'r afael â gofynion uniongyrchol cyfiawnder cymdeithasol wrth gyflymu'r gweithredu ar yr hinsawdd a natur. Felly, mae angen ei ariannu'n briodol ac egluro ei statws. Dylai sicrhau bod y Grŵp yn gwbl gynrychioliadol o grwpiau rhanddeiliaid allweddol hefyd fod yn flaenoriaeth.

***30. Cadw mewn cysylltiad â chyllidwyr***

a) Mae'r Grŵp Adferiad Gwyrdd yn gallu asesu pa gyllid ac adnoddau ychwanegol sydd ar gael i gefnogi'n rhagweithiol y cynigion Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu hynny sydd â'r potensial mwyaf i gyflawni ar raddfa a sicrhau effaith sylweddol. Gall wedyn ddylanwadu a gweithio gyda chyllidwyr yn gyson i helpu i gyfeirio adnoddau i ble mae eu hangen.

b) Mae'r gallu gan Grŵp Galluogi Sector yr Amgylchedd i ddylanwadu ar gyllidwyr i gydweithio lle bo angen ac i ddiwallu anghenion y sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol gyda chyllid wedi'i dargedu. Roedd y dull hwn yn gweithio'n effeithiol ar gyfer ariannu argyfwng tymor byr, ond gellir ei ddatblygu fel dull gweithredu.

***31. Datblygu modelau a mecanweithiau ariannu***

a) Mae gwaith eisoes ar y gweill i archwilio sut y gall gwahanol ddulliau o ariannu prosiectau amgylcheddol weithio. Mae hwn yn gam cadarnhaol iawn, ac mae angen datblygu'r gwaith hwnnw ymhellach wrth i'r amgylchedd ariannu dynhau a'r argyfwng costau byw dreiddio i refeniw cyrff anllywodraethol amgylcheddol a'r cyrff sector preifat sy'n gweithio i sicrhau'r adferiad gwyrdd a theg. Gall y Grŵp Adferiad Gwyrdd chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gadw'r sgyrsiau'n fyw a chyflwyno ymdeimlad o frys.

b) Cyllid craidd yw'r pryder mwyaf o hyd i gyrff anllywodraethol amgylcheddol, sy'n bartneriaid hanfodol wrth sbarduno'r adferiad. Mae llawer o gyllidwyr wedi ymchwilio i'r mater hwn dros y 18 mis diwethaf ac mae cyllidwyr y sector cyhoeddus, yn arbennig, yn ceisio mynd i'r afael â'r her o fewn cyfyngiadau dealladwy cyllid cyhoeddus. Gwnaed cynnydd rhagorol o ran cynyddu hyd contractau cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, ac mae angen rhoi'r un sylw nawr i egluro dealltwriaeth o gyllid craidd gan fod llawer o ddehongliadau gwahanol o'r hyn y mae'n ei olygu.

***32. Datblygu a phrofi syniadau mawr***

a) Dylai'r Grŵp Adferiad Gwyrdd weithio gyda chyllidwyr i ddatblygu pecyn cymorth i helpu i ddatblygu rhestr benodol o brosiectau peilot sy'n pwyso ar y syniadau a restrir yn yr adroddiad Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu.

b) Dylai'r Grŵp Adferiad Gwyrdd archwilio'r potensial i arwain cymorth i nifer fach o brosiectau peilot â blaenoriaeth a allai fod yn gyfrwng i brofi rhai o'r cynigion uchelgeisiol ac arloesol a gyflwynwyd drwy'r broses cynigion Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu. Byddai hyn yn creu momentwm ac yn helpu rhanddeiliaid i fynd i'r afael â rhai 'syniadau mawr'.

***33. Cyfathrebu a rhannu***

a) Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar gyfathrebu a rhannu gwaith y Grŵp Adferiad Gwyrdd. Mae angen rhannu rhagor o wybodaeth reolaidd, weladwy a chyfredol yn eang, a dylid annog yr holl randdeiliaid i rannu eu llwyddiannau a'u heriau. Mae'r Grŵp Adferiad Gwyrdd yn gyfrifol am esgor ar gymaint o waith da nad yw'n cael ei hysbysu i'r gymuned ehangach

***34. Parhau i weithio ar gydnerthedd***

a) Mae'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn dal i fod yn fregus, ac mae anghysondebau sylweddol o hyd rhwng gallu gwahanol sefydliadau. Bydd eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'u cysylltiad uniongyrchol â chymunedau yn hanfodol os yw'r adferiad gwyrdd a theg yn mynd i lwyddo. Felly mae'n rhaid eu cefnogi a'u hannog i atgyfnerthu eu gallu a gwneud eu sefydliadau'n addas ar gyfer y dasg dan sylw.

## Y Camau Nesaf ar gyfer y Grŵp Adferiad Gwyrdd

35. Mae'r Grŵp wedi adolygu ei ddiben a'i sefyllfa'n barhaus er mwyn parhau'n berthnasol wrth fynd i'r afael ag anghenion adferiad gwyrdd a theg. Sefydlodd y Grŵp ei hun fel grŵp sydd "wedi ymrwymo i chwalu seilos a ffyrdd o weithio traddodiadol, i adeiladu ar y momentwm a grëwyd drwy'r ymateb i COVID-19, ac i gydweithio'n greadigol i ddatblygu dulliau a modelau cyflwyno newydd i gyflawni nodau ac amcanion".

36. Yn gynnar yn 2022, gwnaeth y Grŵp gytundeb ar y cyd i barhau, gydag ymrwymiad i adeiladu ar yr egni, y momentwm a'r grym cyfunol a enillwyd dros y 18 mis blaenorol. Roedd awydd cyffredin i barhau i ddefnyddio'r grym cyfunol hwnnw i gysylltu gwahanol sectorau, ysgogi atebion trawsnewidiol, chwalu rhwystrau a chyflwyno syniadau newydd arloesol i'w gweithredu ar fyrder. Mae'r Grŵp yn parhau i gael ei gynnull gan CNC a'i gyfarwyddo gan yr aelodaeth.

37. Mae'r Grŵp yn parhau i ddatblygu ei raglen waith a bydd yn dadansoddi argymhellion a chamau gweithredu adroddiad The Funding Centre i ddatblygu ymateb gweithredol wedi'i flaenoriaethu.

38. Mae'r grŵp wedi cydnabod y bwlch o ran cyfathrebu ac wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hyn.

39. Bydd y Grŵp Adferiad Gwyrdd yn parhau i ddarparu arweiniad a chefnogaeth i Grŵp Galluogi Sector yr Amgylchedd, dan gadeiryddiaeth Steve Ormerod. Gyda chynrychiolwyr o gyrff anllywodraethol amgylcheddol a chyrff ariannu, mae gan y Grŵp (rhestrir yr aelodau yn Atodiad 2) ffocws clir ar feithrin cydnerthedd, gallu ac effaith y sector ar ôl y pandemig a sicrhau bod sefydliadau amgylcheddol nid yn unig yn gallu cydweithio ond yn gallu partneru gydag eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Bydd yn canolbwyntio ar y canlynol:
    - datblygu trosolwg strategol o gyllid grant yng Nghymru mewn perthynas â chanlyniadau amgylcheddol/natur
    - blaenoriaethu ymateb gweithredol i argymhellion perthnasol yn adroddiad newydd The Funding Centre (2022)
    - a bwrw ymlaen â gwaith y Grŵp Adferiad Gwyrdd ar fodelau cyllid cynaliadwy er mwyn cynorthwyo'r sector i sicrhau, trefnu a rheoli buddsoddiad.

**ATODIAD 1: Aelodaeth pan sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd (Mai 2020)**

Roedd aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Adferiad Gwyrdd yn ystyried ymrwymiadau cyfredol ac aelodaeth unigolion ar fforymau sefydledig eraill, ac anfonwyd gwahoddiadau i gynrychiolwyr sectorau eraill ledled Cymru mewn ymdrech i ddenu lleisiau a chyfraniadau ychwanegol.

Roedd yr aelodaeth gychwynnol wrth sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Adferiad Gwyrdd yn cynnwys:

- Justin Albert, Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru
1. Peter Davies, Cadeirydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Cadeirydd Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG)
- Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Chris Johnes, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau Cymru
- Lesley Jones, Prif Weithredwr Cadwch Gymru'n Daclus
- Yr Athro Calvin Jones, Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd
- David Lea-Wilson, Cyfarwyddwr Halen Môn, Grŵp Coedwig Cymunedol Llyn Parc Mawr
- Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), gyda chefnogaeth Tim Peppin, CLlLC
- Peter Perry, Prif Weithredwr Dŵr Cymru Welsh Water
- Sue Pritchard, Prif Weithredwr y Food, Farming and Countryside Commission
- Vivienne Sugar, Cadeirydd Sefydliad Bevan
- Cathy Weatherup, Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru

Manteisiodd aelodau'r grŵp ar eu rhwydweithiau helaeth eu hunain i lywio'r gwaith:

- Mae Peter Davies wedi gweithio gyda Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG)
- Cysylltodd Chris Johnes ag aelodau o'r Rhwydwaith Sector Cymunedol, sy'n cynnwys sefydliadau cymunedol lleol ledled Cymru, a chwiliodd am syniadau am fentrau lleol ar lawr gwlad a allai helpu i ddatblygu'r adferiad gwyrdd.
- Mae Lesley Jones wedi gweithio gyda Grŵp Adferiad Gwyrdd Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r rhwydwaith ehangach o grwpiau amgylcheddol y trydydd sector.
- Cynhaliodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ddigwyddiad bord gron i ddod â'r grwpiau a'r rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar adferiad COVID-19 at ei gilydd
- Mae CLlLC wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu rhaglen o weithgareddau i gefnogi'r adferiad economaidd wrth greu manteision cymdeithasol ac amgylcheddol hefyd.
- Mae Howard Davies, aelod o Fwrdd CNC, wedi darparu mewnbwn a chyfeiriad penodol i ymgynghorwyr sy'n adrodd ar sefydlogi'r trydydd sector amgylcheddol.

**ATODIAD 2: Aelodaeth Grŵp Galluogi Sector yr Amgylchedd (Mehefin 2022)**

| Enw | Teitl a Sefydliad |
|---|---|
| Steve Ormerod (Cadeirydd) | Aelod o'r Bwrdd (CNC) |
| Bronia Bendall (Ysgrifenyddiaeth) | Uwch Arbenigwr: Adferiad Gwyrdd (CNC) |
| Matthew Brown | Cyfarwyddwr Gweithrediadau (CGGC) |
| Gareth Cunningham | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol |
| Joanne Doyle | Arweinydd Tîm Dulliau a Rhaglenni Strategol (CNC) |
| Julie Hughes | Swyddog Datblygu Cymru (Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol) |
| Michele Hunt | Pennaeth Datblygu Cyllid (RSPB) |
| Lesley Jones | Prif Swyddog Gweithredol (Cadwch Gymru'n Daclus) |
| Eileen Kinsman | Cyd-Brif Swyddog Gweithredol Dros Dro (Canolfan Dechnoleg Amgen) |
| Julia Korn | Uwch Reolwr, Busnes (PONT) |
| Gail Merriman | Pennaeth Adferiad Gwyrdd (Llywodraeth Cymru) |
| John Rose | Cyfarwyddwr Cymru (Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol) |
| Rachel Sharp | Prif Swyddog Gweithredol (Ymddiriedolaethau Natur Cymru) |
| Alice Teague | Dirprwy Gyfarwyddwr, Morol (Llywodraeth Cymru) |
| Karen Whitfield | Cyd-gyfarwyddwr (Cyswllt Amgylchedd Cymru) |
| Sarah Williams | Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a Rheoli Perfformiad (CNC) |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# IEPAW

# Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

## Adroddiad blynyddol 2021/2022

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Y gweithgareddau cyntaf a gyflawnwyd gan yr Asesydd Interim** | **4** |
| **Adrodd i Weinidogion Cymru** | **10** |
| **Adolygu prosesau** | **10** |
| **Adborth** | **11** |


OGL © Hawlfraint y Goron 2022
WG45050 ISBN digidol 978 1 80364 263 5

# Rhagair



Cafodd rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (yr Asesydd Interim) ei chreu er mwyn ystyried pryderon am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru. Mae wedi bod yn fraint i mi gael cyflawni'r rôl hon ers iddi gael ei chreu ym mis Mawrth 2021 ac mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol cyntaf yn y rôl.

Gwarchod yr amgylchedd naturiol yw un o'r heriau mwyaf y mae'r ddynoliaeth yn ei hwynebu ar hyn o bryd. O effaith nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer i ansawdd y dŵr yn ein hafonydd a'r angen i warchod ein coedwigoedd, mae'r amgylchedd yn effeithio ar fywydau pob person yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill yn ogystal. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod gennym y fframwaith cyfreithiol cryfaf posibl mewn lle i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei warchod.

Mae fy mlwyddyn gyntaf fel Asesydd Interim wedi rhoi llawer o foddhad, ond mae wedi esgor ar lawer o heriau hefyd. Mae nifer y cyflwyniadau yr wyf wedi'u cael yn ystod y cyfnod yn dangos yn glir bod gan y cyhoedd lawer o ddiddordeb mewn gwarchod yr amgylchedd, a bod yna awydd i sicrhau bod y gyfraith yn gwarchod yr amgylchedd yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae fy nhîm a finnau wedi bod yn gweithio'n galed i sefydlu gwasanaeth sy'n sicrhau bod pryderon y cyhoedd am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yn cael eu hystyried yn briodol ac yn cael eu dwyn i sylw llunwyr polisi a rheoleiddwyr yng Nghymru.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle yr wyf wedi'i gael i gyflawni'r rôl bwysig hon yn ystod y 12 mis diwethaf ac rwy'n edrych ymlaen at yr heriau sydd i ddod.

# Cyflwyniad

Cafodd Dr Nerys Llewelyn Jones ei phenodi yn Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (Asesydd Interim) ym mis Mawrth 2021 er mwyn ystyried pryderon a fynegir gan y cyhoedd am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru. Proses interim yw hon a fydd mewn lle nes y caiff corff parhaol ei sefydlu yng Nghymru i oruchwylio'r graddau y cydymffurfir â chyfraith amgylcheddol.

Cafodd Dr Llewelyn Jones ei chontractio am gyfnod o hyd at ddwy flynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn y contract am flwyddyn. Cafodd ei chontractio i weithio o leiaf 20 diwrnod y flwyddyn. Mewn gwirionedd, mae wedi bod yn gweithio rhwng dau a thri diwrnod y mis ar fusnes yr Asesydd Interim.

Mae'r Asesydd Interim yn annibynnol o Lywodraeth Cymru, er bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth o ran ysgrifenyddiaeth i'r Asesydd. Rydym yn canolbwyntio ar y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu, ac nid ar unrhyw achosion o dorri'r gyfraith honno.

Dyma ein nodau:

- goruchwylio'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru; ac
- ystyried problemau systemig sy'n ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio neu'n gweithredu yng Nghymru.

Nid yw ein rôl yn ymdrin ag:

- achosion o dorri cyfraith amgylcheddol;
- meysydd lle na chydymffurfir â chyfraith amgylcheddol; a
- phroblemau a godir y mae system neu broses gwyno arall yn ymdrin â nhw.

Ein nod yw adnabod meysydd lle gellir cymryd camau gweithredu i wella'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu, er mwyn gwella canlyniadau amgylcheddol.

Mae manylion ynghylch sut mae mynegi pryder am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu, yn ogystal â manylion ein cylch gorchwyl, ar gael fan hyn llyw.cymru/codi-pryderon-am-sut-mae-cyfraith-amgylcheddol-yn-gweithio

WOODLAND
TRUST

## Green Recovery

4. **Progress in taking forward the 'priority actions' identified in the Green Recovery: Priorities for Action report**;
   4.1. The "Priority Action" we are most actively taking forward is on urban tree cover – submitted as a "Tree Towns" proposal. We have been able to continue discussions with an informal external stakeholder group and have been able to bring some funding from a UK corporate partner to support work by Cardiff Council.
   4.2. We continue to work closely with Wrexham Council and will shortly publish an independent review of their experience in preparing their Tree and Woodland Strategy and the barriers they have experienced in implementing it.
   4.3. At UK level we are working with the US charity American Forests and Centre for Sustainable Healthcare to commission work to gather data on tree equity in the UK – mapping inequalities in tree cover and combining this information with socio-economic data sets to identify where lack of tree cover and green space is contributing to social, health and economic depravation
   4.4. NRW have been very supportive of this work but no significant additional resource has been forthcoming through any green recovery initiative.
   4.5. There are wider developments which if sustained at scale will lead to a greener economy. These include investment shifts from road building to active travel and green infrastructure; support for more sustainable farming; shifting of some flood prevention funding to land management measures; and disinvestment in fossil fuels in favour of energy efficiency and renewables.
5. **Progress in taking forward the recommendations in the Green Recovery: Supporting the environmental sector in Wales report;**
   5.1. The observations made in the 6 "recommendations" made in the report are largely still current and the main challenges remain, including:-
      - "*building reliable, predictable and efficient funding within this sector*"
      - "*Whether it is the lack of resource, the inexperience, the culture or the competitive funding environment, there is a strong sense that insufficient collaboration is taking place*."
      - "*….NRW is stretched at present, and that a better-resourced organisation could do even more to support the wider eNGO sector*."
      - "*…..strong support for the idea of a Green Recovery for Wales and agreement that we cannot continue with "business as usual". Far more needs to be done to support innovation and to bring about the conditions that promote it*."
6. **The development of the National Nature Service for Wales**.
   6.1. We remain interested in the concept of a National Nature Service but have not been in a position to actively commit resource to program development. For us there are structural challenges to gearing up to employ significant numbers of additional and

inexperienced staff and we would need there to be funding and a support framework in place to make that a possibility.

6.2. At present the concept of a new “green jobs” initiative appears stuck by barriers of program development resource, funding and possibly labour availability. We currently have 31 vacancies available at UK level.

Jerrylangford@woodlandtrust.org.uk

8 June 2022

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith /
Climate Change, Environment and Infrastructure Committee
Teithio ar fysiau a'r rheilffordd yng Nghymru / Bus and rail transport in Wales
BRT10
Ymateb gan / Evidence from West Coast Partnership

West Coast Partnership welcomes the opportunity to submit views in response to the Climate Change Environment and Infrastructure Committee's call for evidence for its inquiry into public transport in Wales.

West Coast Partnership operates Avanti West Coast (the busiest mixed-use railway in the UK) and is the 'Shadow Operator' for HS2: designing, developing and mobilising high speed service operations and the associated conventional services. Our vision is to deliver a progressive railway that generates prosperity and pride across all the nations we serve and we stand ready to work with all partners to collaboratively promote and develop rail as we look to drive regional growth and deliver exceptional services for the benefit of customers and communities on our route.

Comments are provided below on each of the three main lines of inquiry. Given our role as a provider for rail services our views relate predominantly to rail – however we recognise that connectivity between various modes of public transport represents an opportunity for significant and sustained modal shift.

1) Priorities for post covid recovery for Welsh bus and rail

The pandemic has presented challenges, but also an opportunity for the rail industry, alongside and supported by Government, to continue to develop new ways of working that have collaboration and customers at the heart of everything that we do. We will continue to work with Government and others to support ongoing recovery and to create a better, more responsive offer for customers that also presents real value for taxpayers.



WEST COAST
PARTNERSHIP

As a result of the pandemic, we have seen changes to traditional travel patterns and people are now starting to use public transport in a different way than previously. With more flexible working arrangements in place for many people we have seen a move away from expected rush hour spikes consistently across the week. Leisure demand at weekends has grown significantly across our network and on some routes has surpassed pre-covid levels. Building on the agility we and the rail industry demonstrate during Covid, we aim to maintain flexibility and grow services responding to such changing patterns of use through, for example, the timetables that we deliver and also ticketing products on offer.

In order to continue to build the market for public transport and attract more passengers we are focused on providing a proposition that meets and exceeds the expectations and needs of our current and potential customers. This means ensuring that we deliver a reliable and accessible service right across our network. Creating the conditions for these to be met will continue to be a priority for us alongside government, which will also enable growth and transformational regeneration across our route

2) The action required to achieve Welsh Government targets for modal shift to these modes, and behaviour change

West Coast Partnership supports the vision and ambitions outlined in *Llwybr Newydd – A New Wales Transport Strategy* - for an accessible, sustainable transport system which supports people and communities, is good for the environment, helps to drive economic growth and will contribute to the creation of great places to live and visit. We welcome the focus on partnership working to deliver that strategy and the commitment by Welsh Government to strengthen engagement with commercial transport operators who serve Wales.

We believe that the government can continue to help facilitate collaboration between transport operating companies across Wales which will is essential to help deliver a more integrated public transport services and is an essential requirement for the modal shift and behaviour change required. In addition to this, sustained and targeted investment will help create the conditions for a safe, reliable and integrated

rail network making it easier for people to access public transport in a way that meets their needs and requirements.

In 2023 Avanti West Coast will begin the rollout of its new fleet of Hitachi trains. The new fleet will be a mix of ten seven-carriage electric trains and 13 five-carriage bi-mode trains, with the ability to switch seamlessly between electric and diesel power. The electric trains (Class 807) will operate between London, the West Midlands and Liverpool while the bi-mode version (Class 805) will be focused on the London to North Wales route. Crucially the introduction of the fleet and the phasing out of the Voyager trains which currently serve our North Wales route will lead to a 61 percent reduction in carbon emissions.

3) Views on proposals for bus and rail reform – including UK Government plans to reform the rail industry, and Welsh Governments plans for regulation of bus services / the Bus White Paper

West Coast Partnership welcome reform that benefits customers. As much of the detail on reform is still to be decided, we want to work closely with all parties to ensure the customer is at the heart of the changes that will be made. We are keen to understand further how the introduction of Great British Railways will impact on private sector operators.

West Coast Partnership will deliver many improvements for customers and communities along the West Coast Mainline over the coming years and we're committed to making rail travel sustainable through delivering on the commitments in Our Responsible Plan. As part of this commitment, we look forward to continuing our work with Transport for Wales, the Welsh Government and other stakeholders to build on our achievements to date and will work with all partners to collaboratively promote and develop rail as we look to build back better beyond the pandemic.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: DC-VG-00424-22

Russell George AS
Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol

13 Mehefin 2022

Annwyl Russell

Diolch am ei llythyr yn dilyn cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol ar 27 Ebrill ac am ddarparu rhagor o gwestiynau, y ceir atebion iddynt isod.

**Sicrwydd y bydd y tabl mewnbwn-allgynnyrch ar gael i ymchwilwyr ei ddefnyddio mewn astudiaethau yn y dyfodol.**

Mae angen ystadegau manwl, amserol o ansawdd uchel er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio polisïau yng Nghymru a ledled y DU. Mae hyn yn enwedig o bwysig o gofio bod pwerau datganoledig cynyddol, ymadael â'r UE a COVID-19 yn newid y strwythur economaidd a'r cysylltiadau rhwng gwahanol ranbarthau.

Tablau cyflenwad a defnydd (SUT) yw asgwrn cefn cyfrifon gwladol, ac maent yn casglu ynghyd yr holl ddata ar allgynnyrch, mewnbwn, gwerth ychwanegol gros, incwm a gwariant sydd ar gael, a hynny mewn fframwaith cyson. Maent yn cyflwyno cyfrifon o weithgarwch economaidd ardal ac yn chwarae rhan bwysig mewn sicrhau ansawdd cyfrifon gwladol. Mae tablau mewnbwn-allgynnyrch (IOT) yn deillio o'r tabl cyflenwad a defnydd ac yn cyfrannu at asesiadau o effaith a modelau economaidd, y gellir eu defnyddio i ddadansoddi effeithiau polisïau cenedlaethol.

Cyhoeddodd Prifysgol Caerdydd dablau mewnbwn-allgynnyrch ar gyfer Cymru yn 2007. Oherwydd oedran y data hyn ac ansicrwydd ynghylch eu dilysrwydd, nid ystyrir bod yr ystadegau hyn yn addas i'r diben mwyach.

Dyma'r rheswm y cymeradwyodd y Gweinidog Cyllid hyd at £1.05 miliwn yn ddiweddar, ar gyfer y tair blynedd nesaf, er mwyn gwella ystadegau economaidd i Gymru drwy sefydlu rhaglen fewnol o waith i ddatblygu tablau mewnbwn-allgynnyrch i Gymru.

Bydd datblygu tablau mewnbwn-allgynnyrch yn fewnol yn rhoi mwy o reolaeth, dylanwad ac arweinyddiaeth i Lywodraeth Cymru dros ddatblygiad y gwaith hwn, ac yn cynnig cyfle i ddatblygu arbenigedd yn fewnol. Rydym yn bwriadu gweithio'n agos gydag arbenigwyr o Brifysgol Caerdydd ar y rhaglen waith hon, a byddwn yn

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

ymgynghori â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sefydliadau allanol, er mwyn deall yr angen ymhlith defnyddwyr am yr ystadegau hyn.

I wella ansawdd y data sy'n ofynnol ar gyfer tablau cyflenwad a defnydd a thablau mewnbwn-allgynnyrch ac i sicrhau bod data o'r fath ar gael yn fwy didrafferth, bydd angen i ni hefyd gynyddu'r cyllid ar gyfer arolygon presennol lle mae maint y sampl ar gyfer Cymru yn fach.

Fodd bynnag, nid yw datblygu tablau mewnbwn-allgynnyrch yn dasg gyflym. Oherwydd natur dechnegol y gwaith, yr angen i gasglu data ychwanegol, a'r bylchau amser sy'n gysylltiedig â'r arolygon hyn, mae'n annhebygol y câi tablau mewnbwn-allgynnyrch eu cyhoeddi tan 2024-25, er ei bod yn bosibl y bydd data arbrofol ar gael ynghynt na hynny.

**Ymrwymiad i ysgrifennu at Russell George AS fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol er mwyn defnyddio mewnwelediad ac arbenigedd y grŵp i gyfrannu at yr ymgynghoriad ar ei strategaeth arloesi drawsbortffolio newydd, ac er mwyn darparu amserlen ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth ddrafft er mwyn ymgynghori arno.**

Rydym yn gweithio gydag aelodau dynodedig o Blaid Cymru ar hyn o bryd, yn unol â'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio i ddatblygu strategaeth arloesi newydd ar y cyd. Mae'n bwysig ein bod yn cwblhau ein gweithgareddau ymgysylltu a chynnwys, ac yn cydymffurfio â'r Cytundeb Cydweithio ac amserlen y Senedd, er mwyn sicrhau ymrwymiad trawslywodraethol o ran y ffordd orau ymlaen.

Ar hyn o bryd, bwriedir cyhoeddi'r strategaeth yn ystod yr hydref, ac rwyf wedi gofyn i fy swyddogion arloesi gysylltu â chi pan fyddwn yn cyhoeddi'r drafft er mwyn ymgynghori arno.

**A fydd ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gynyddu gwariant ar seilwaith ymchwil feddygol yn cyd-fynd â'r strategaeth newydd?**

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi sicrhau cytundeb cyllido rheolaidd pellach gwerth £5 miliwn ar gyfer 2022–23 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynyddu ei gyllideb i £47 miliwn y flwyddyn.

Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r Ganolfan Dystiolaeth COVID gwmpasu meysydd polisi (nad ydynt yn ymwneud â COVID) mewn modd mwy cyffredinol, ac yn cefnogi'r gwaith o weithredu Strategaeth y DU ar gyfer Ymchwil Feddygol er mwyn sicrhau bod y GIG yn dod yn gorff sy'n canolbwyntio ar bobl ac sydd wedi'i alluogi'n ddigidol o safbwynt ei ddull o gynnal ymchwil; sefydlu menter Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i hybu llwybrau gyrfa ym maes ymchwil a datblygu cynlluniau gwobrwyo personol newydd i fynd i'r afael â bylchau yn y llwybrau presennol yng Nghymru; gweithredu strategaeth ymchwil canser Cymru, ynghyd â buddsoddiadau newydd mewn gwaith ymchwil a datblygu ym maes gofal cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â lefelau traddodiadol isel o ran capasiti ymchwil.

**Briff manylach ar gwmpas a chynnwys y cyfarfodydd â Llywodraeth y DU pan lobïodd y Gweinidog ar ran y sector ymchwil yng Nghymru.**

Er bod cynnwys y cyfarfodydd rhwng Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru a'u Gweinidogion a swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU ac yn y gweinyddiaethau datganoledig yn parhau i fod yn sensitif ac yn aml yn fasnachol gyfrinachol, gallaf eich sicrhau y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo Cymru ac i weithio tuag at sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer ein huchelgeisiau o ran economi a phobl Cymru.

**Diffyg cefnogaeth ar gyfer arloesi ym maes llawfeddygaeth, a manylion unrhyw gymorth gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael i unigolion i'w galluogi i arloesi mewn lleoliad clinigol.**

Mae ystod o lwyfannau cymorth ac ymyriadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn bodoli, fel rhan o'n hecosystem arloesi ehangach ym maes iechyd a gofal, er mwyn cefnogi a datblygu arloesedd.

Ein tair prif fenter yw (darperir dolenni a disgrifiadau isod)

- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
- Cyflymu Cymru
- AgorIP

Nod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru | Gwyddorau Bywyd (lshubwales.com/cy) yw helpu i drawsnewid iechyd a lles economaidd y wlad drwy:

1. Cyflymu'r broses o ddatblygu a mabwysiadu atebion arloesol sy'n diwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.
2. Gweithio mewn partneriaeth â diwydiant er mwyn hybu datblygu economaidd ar draws y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru, sbarduno twf busnesau a chreu swyddi.

Er mwyn helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd, rydym yn cefnogi cydweithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru i ddeall yr heriau a'r pwysau y gall sefydliad eu hwynebu. Ar ôl eu nodi, rydym yn gweithio gyda diwydiant i gyrchu atebion arloesol a chefnogi'r gwaith o'u datblygu er mwyn ymateb i'r heriau hyn.

Mae Cyflymu Cymru | Gwyddorau Bywyd (lshubwales.com/cy) wedi'i ariannu ar y cyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, prifysgolion, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a byrddau iechyd GIG Cymru.

Mae Cyflymu yn helpu arloeswyr yng Nghymru i drosi eu syniadau yn atebion fel bod modd eu mabwysiadu yn y sector iechyd a gofal.

Arweinir Accelerate gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd (Cyflymu Arloesi Clinigol), Prifysgol Abertawe (Y Ganolfan Technoleg Gofal Iechyd) a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Y Ganolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol). Yn hytrach na darparu cyllid neu grantiau, mae'r rhaglen hon yn cynnig y cyfle i fusnesau bach a chanolig a mentrau yng Nghymru gyrchu arbenigedd academaidd a chael mynediad i'r cyfleusterau diweddaraf y mae eu hangen ar arloeswyr ac entrepreneuriaid i wireddu eu syniadau.

Gall Cyflymu wneud y canlynol:

- Nodi cydweithrediadau ym maes ymchwil a datblygu.
- Cysylltu hyn ag arbenigwyr ym meysydd technoleg iechyd, profiad y defnyddiwr ac ymgysylltu clinigol.
- Helpu i lywio ecosystem gymorth y gwyddorau bywyd.

Mae AgorIP yn ddull newydd o ymdrin ag arloesi a all helpu i sicrhau bod syniadau ac arloesedd yn dwyn ffrwyth.

Diolch i gymorth gan yr UE a Llywodraeth Cymru, gall AgorIP eich helpu i wireddu potensial eich syniad, eich cynnyrch neu eich ymchwil. Mae ein tîm o arbenigwyr ar gael i'ch helpu i gyflwyno eich eiddo deallusol (IP) i'r farchnad a'i helpu i fod yn llwyddiant masnachol.

O safbwynt busnes a'r economi, drwy Busnes Cymru (llyw.cymru) cynigir llwybr i unigolyn â syniad gael cymorth gan Lywodraeth Cymru. Bydd Busnes Cymru yn ystyried pa un ai atgyfeirio achosion at y Tîm Arloesi neu'r Tîm Mentergarwch, neu wasanaethau eraill, gan ddibynnu ar yr hyn sydd fwyaf priodol.

O ran y cymorth ar gyfer busnesau sy'n gysylltiedig ag iechyd, dros oes y cynllun SMARTCymru presennol sydd wedi'i ariannu gan yr UE, a'n cynllun Datblygu, Ymchwil ac Arloesi COVID, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi 89 o fusnesau i gyflawni 123 o brosiectau, gyda chyfanswm cymorth grant o £9,012,404 a chyfanswm costau prosiectau o £16,745,404.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS**
Gweinidog yr Economi

Copi i:
Glerc y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd a Chlerc y Pwyllgor Plant Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd a Chlerc y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd a Chlerc Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Altaf Hussein AS

# Eitem 5.4

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

SeneddClimate@senedd.wales

15 Mehefin 2022

Annwyl Gadeirydd

**Canlyniad cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, dyma roi gwybod bod y Gweinidog Newid Hinsawdd a minnau wedi cynrychioli Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar 24 Mai 2022.

Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Tai a Llywodraeth Leol, Shona Robison ASA a'r Gweinidog dros Nawdd Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Ben Macpherson ASA, yn bresennol ar ran Llywodraeth yr Alban. Roedd y Gweinidog Cymunedau, Deirdre Hargey ACD a'r Gweinidog Cyllid, Conor Murphy ACD, yn cynrychioli Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Y Gwir Anrhydeddus Michael Gove, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol a gadeiriodd y cyfarfod rhithwir – yng nghwmni’r Gweinidog dros Ffyniant Bro, y Cyfansoddiad a'r Undeb, Neil O'Brien AS; a'r Gweinidog dros Ddiogelwch Adeiladau a Thân, yr Arglwydd Greenhalgh.

Trafododd y grŵp eu ffyrdd o weithio yn y dyfodol, ar sail y canlyniadau y cytunwyd arnynt yn sgil yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Penderfynodd y grŵp gyfarfod bob chwarter, a chytunais y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal y cyfarfod nesaf.

Diogelwch Adeiladau oedd y brif eitem ar yr agenda. Roedd y grŵp yn cydnabod ei fod yn fater a rennir sy'n effeithio ar bob llywodraeth a bod gennym nod ar y cyd i ddwyn y diwydiant i gyfrif ac amddiffyn preswylwyr. O ystyried y tebygrwydd cyffredinol ar draws ein systemau, pwysleisiodd y Gweinidog Newid Hinsawdd bod angen cydweithio’n well ar y materion a gadwyd yn ôl ar gyfer diogelwch adeiladau, gan gynnwys yswiriant a benthyca. Tynnodd sylw at bryderon a nodwyd o'r blaen ynghylch yr angen i Lywodraeth Cymru gael

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ei chynnwys mewn trafodaethau a gynhelir rhwng Llywodraeth y DU a datblygwyr eiddo sy'n ymwneud â chael eu cytundeb i ariannu ac atgyweirio pob adeilad dros 11 metr y maent wedi chwarae rhan yn y gwaith o'u datblygu.

Bydd swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth yn gweithio ar ran y pedair gwlad i gytuno ar yr hyn y roddir sylw iddo yn y cyfarfod nesaf a gynhelir yn yr hydref.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a gafodd ei drafod yn y cyfarfod yma.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

GREENER UK

Healthy Air Awyr Iach Cymru

## Llythr Agored at Brif Weinidog Cymru

Mehefin 2022

### Mae Cymru angen mynediad at gyfiawnder amgylcheddol

Annwyl Brif Weinidog

Ym mis Mehefin 2021 cyhoeddodd y Senedd argyfwng natur. Mewn ymateb, addawodd Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i sefydlu targedau statudol ar gyfer adferiad natur, yn ogystal â chorff annibynnol i ddwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif ar eu hymrwymiadau amgylcheddol. Bron i flwyddyn yn ddiweddarach, nid oes unrhyw eglurder ynghylch pryd y gwneir hyn. Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r cyfreithiau newydd pwysig hyn, ar gyfer pobl a bywyd gwyllt Cymru, heb oedi pellach.

Fe wnaed ymrwymiad cyntaf Llywodraeth Cymru tuag at sefydlu corff annibynnol amgylcheddol statudol yn 2018, ac er yn aml wedi cael ei ailadrodd, nid ydyw wedi cael ei wireddu. Pan oedd y DU yn Aelod o'r UE, roedd goruchwyliaeth a gorfodi gan sefydliadau yr UE yn gwarchod ein hamgylchedd ac yn caniatau i ddinasyddion i godi cwynion heb gost ariannol. Yn aml fe fyddai hyn yn arwain at ymchwilad ac achos llys, gan gynnwys ar ansawdd aer a diogelu natur.

Mae trefniadau cyfatebol eisioes wedi cael eu gwneud ar draws gweddill y DU, gyda Safonau Amgylcheddol yr Alban a Swyddfa ar gyfer Amddiffyn yr Amgylchedd (a fydd yn goruchwilio cyfraith amgylcheddol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon). Y mae'r ddau sefydliad yn statudol, wedi creu timau, wedi ymgynghori ar strategaethau a chreu llwybr clir i ddinasyddion godi pryderon os ydyn yn ystyried bod corff cyhoeddus yn methu cydymffurfio gyda neu weithredu cyfreithiau amgylcheddol. Mae mynediad at gyfiawnder amglycheddol – hawl rhyngwladol – yn cael ei gefnogi gan y prosesau hyn.

Yng Nghymru, er bod trefniadau dros dro ar waith, nid oes unrhyw bwerau cyfreithiol, dim strategaeth gyhoeddus ac nid oes gwefan hawdd ei llywio (neu hyd yn oed, hawdd dod o hyd iddi). Eto i gyd, mae'r adroddiad blynyddol cyntaf a gyhoeddwyd gan Asesydd Interim Diogelu Amgylchedd Cymru ar y 1af o Fehefin yn dangos bod pryder ynghylch defnydd ein cyfreithiau amgylcheddol.

Ni all Cymru fforddio bod ar ei hôl hi o ran materion diogelu'r amgylchedd: mae un o bob chwech o'n rhywogaethau mewn perygl o gael eu colli o Gymru, a dim ond cyfran fach o'n safleoedd natur gorau ar y tir ac ar y môr sydd mewn cyflwr da. Mae dros 1600 o bobl yn marw'n gynnar bob blwyddyn oherwydd llygredd aer. Mae'r oedi parhaus i gyflwyno deddfau i warchod a gwella ein hamgylchedd yn tanseilio hawl pobl i gyfiawnder amgylcheddol ac yn lleihau enw da Llywodraeth Cymru fel arweinydd byd ar ddatblygu cynaliadwy.

Mae aer glân, dŵr glân a natur sydd yn ffynnu yn ganolog i iechyd a lles pobl. Mae amgylchedd Cymru a'i dinasyddion yn haeddu cyfiawnder amgylcheddol – deddfwriaeth gadarn i ysgogi adferiad, yn ogystal â'r arfau i ddwyn y llywodraeth i gyfrif, fel bod cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn elwa ar amgylchedd iach.

Yn gywir,

| | |
|---|---|
| Roger Thomas | Cadeirydd Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Joseph Carter | Cadeirydd Awyr Iach Cymru / Pennaeth Asthma + Lung UK Cymru |
| Alun Pritchard | Cyfarwyddwr RSPB Cymru |
| Shaun Spiers | Cadeirydd Greener UK |
| Rachel Sharp | Cyfarwyddwr Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Anne Meikle | Cyfarwyddwr WWF Cymru |
| Chris Mills | Cadeirydd Afonydd Cymru |
| Jason Reeves | Pennaeth Polisi Chartered Institute for Ecology and Environmental Management (CIEEM) |
| Angela Charlton | Cyfarwyddwr Ramblers Cymru |
| Kit Stoner | Prif Weithredwr Bat Conservation Trust |
| John Harold | Cyfarwyddwr Cymdeithas Eryri |
| Nicola Hutchinson | Cyfarwyddwr Cadwraeth ar gyfer Plantlife (Cymru). |
| Haf Elgar | Is-Gadeirydd Awyr Iach Cymru/ Cyfarwyddwr |

| | |
|---|---|
| | Cyfeillion y Ddaear Cymru |
| Ruth Billingham | Pennaeth Ymgyrchoedd a Materion Cyhoeddus yn Living Streets Cymru |
| Lowri Jackson | Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd Royal College of Physicians |
| Christine Boston | Cyfarwyddwr Sustrans Cymru |
| Gwenda Owen | Swyddog Ymgysylltu Cycling UK Cymru |
| Angela Charlton | Cyfarwyddwr Ramblers Cymru |
| Gareth Cunningham | Pennaeth Cadwraeth Cymru Marine Conservation Society |
| Natalie Buttriss | Cyfarwyddwr Coed Cadw |

## Supported by all WEL members

Wales Environment Link (WEL) is a network of environmental, countryside and heritage Non-Governmental Organisations in Wales. WEL is a respected intermediary body connecting the government and the environmental NGO sector. Our vision is a thriving Welsh environment for future generations.


**Swyddfa Caerdydd**
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Trydar: @WalesLink

**Cardiff Office**
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Twitter: @WalesLink

www.waleslink.org




Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Joint Directors: Susan Evans and Karen Whitfield.
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf
Ein cyf MA-LW-1678-22

Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
SeneddLJC@senedd.wales

22 Mehefin 2022

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf atoch i dynnu eich sylw at is-ddeddfwriaeth yr ydym wedi'i gosod gerbron y Senedd ddoe, 21 Mehefin. Os caiff ei basio gan y Senedd, bydd terfyn cyflymder trefol o 20mya ledled Cymru yn cael ei gyflwyno yn 2023. Rwyf wedi atodi dolen isod i'r ddeddfwriaeth a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig (RIA) a Memorandwm Esboniadol ar-lein.

Gosod dogfennau'r Senedd

Roeddwn hefyd am nodi rhai materion pellach sydd wedi'u hystyried wrth ystyried yr anfanteision economaidd y manylwyd arnynt yn yr RIA.

Rhaid ystyried yr asesiad o gyflwyno terfyn cyflymder 20 mya diofyn ar gyfer Cymru gyfan yng nghyd-destun y ddadl broffesiynol aml-ddegawd ynghylch prisio arbedion amser teithio. Er bod agweddau technegol ar y ddadl hon, yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chyflawni newid dulliau teithio i ffwrdd o gerbydau preifat i ddulliau teithio mwy cynaliadwy, y mater sylfaenol yw y gallai arbedion amser teithwyr naill ai gefnogi neu danseilio'r blaenoriaethau Llywodraeth Cymru hyn, yn dibynnu ar bwy sy'n cronni'r arbedion amser.

Os bydd gyrwyr yn arbed amser gall hyn gynyddu'r defnydd o geir a chyda hynny mwy o filltiroedd cerbydau, carbon, llygredd, tagfeydd, perygl ffyrdd ac afiechyd oherwydd ffyrdd eisteddog o fyw. Mae hyn yn mynd yn groes i amcanion lefel uchaf Llywodraeth Cymru ar gyfer hinsawdd, newid dulliau teithio, ansawdd aer a llesiant cymdeithasol. O dan yr amgylchiadau hyn byddai'n wrthnysig ystyried yr arbedion amser hyn fel manteision heb roi cyfrifyddu am yr anfanteision hyn, gan nad yw llawer ohonynt yn agored i feintioli llawn.

I'r gwrthwyneb i hyn, os yw defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus, cerddwyr neu feicwyr yn arbed amser, mae hyn yn tueddu i leihau'r defnydd o gerbydau ac allyriadau carbon cydredol, llygredd aer gwenwynig, tagfeydd a damweiniau, tra ar yr un pryd yn gwella iechyd trwy fwy o deithio llesol. Yn yr achosion hyn, lle mae'r arbedion amser yn cefnogi prif amcanion Llywodraeth Cymru, mae'r manteision arbedion amser yn ategu'r manteision ehangach hyn, na ellir eu meintioli'n llawn eto.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymhellach, fel y nodwyd uchod, mae dadl academaidd wedi amlygu ansicrwydd ynghylch y gwerth y dylid ei roi i arbedion amser bach, yn enwedig lle mae’r arbedion amser bach hyn yn cronni ar deithiau hamdden byr o dan amodau heb dagfeydd. Mae rhai wedi dadlau y gallai’r gwerth fod yn isel iawn mewn amgylchiadau o’r fath neu hyd yn oed yn sero (yn wir, mewn amodau gorlawn, gallai’r gostyngiad arfaethedig mewn terfynau cyflymder mewn gwirionedd gael ychydig iawn o effaith, os o gwbl, ar amseroedd teithio).  Ar y llaw arall, mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos y bydd y manteision cyfanredol o’r polisi yn gadarnhaol o ran lleihau gwrthdrawiadau a’r manteision iechyd cysylltiedig.

Yr ansicrwydd hwn yw un o’r rhesymau pam y mae Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn cael eu hadolygu ac wedi’u hailddrafftio i’w gwneud yn ofynnol i’r elfennau o asesiadau gwerth am arian sy’n deillio o newidiadau i amseroedd teithio gael eu dangos ar wahân, fel bod y rhai sy’n gwneud penderfyniadau yn gallu ystyried perthnasedd a dilysrwydd yr elfen amser taith. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y polisi 20 mya diofyn cenedlaethol wedi dilyn y canllawiau hyn ac yn dangos, ac eithrio arbedion amser teithio, bod y polisi 20mya yn darparu gwerth rhagfynegol negatif (NPV) o £1.9 miliwn.

At hynny, mae adolygiad diweddar o Lyfr Gwyrdd Trysorlys y DU wedi cydnabod, er mwyn i wariant ar bolisïau a phrosiectau fod yn werth am arian, bod yn rhaid iddo gefnogi nodau ac amcanion y llywodraeth. O ganlyniad i’r adolygiad hwn, mae Prif Economegydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nodyn cynghori ‘Cydweddu’r Llyfr Gwyrdd â Gwerthoedd Llywodraeth Cymru: Trafnidiaeth’, sy’n datgan: ‘Dim ond os yw’n gyson y gellir dangos bod prosiect yn rhoi gwerth am arian. gydag amcanion a gwerthoedd strategol Llywodraeth Cymru’.

Ein hasesiad yw, wrth ystyried polisi Llywodraeth Cymru sy’n ceisio atal cerbydau rhag teithio’n gyflym i lawr ffyrdd preswyl am resymau’n amrywio ar draws newid yn yr hinsawdd, newid dulliau teithio, diogelwch ar y ffyrdd ac iechyd y cyhoedd, bod angen barn gytbwys. Dylai hyn ystyried yr ansicrwydd ynghylch gwerth arbedion amser bach ar deithiau byr a'r ystod eang o fanteision sy'n gysylltiedig â lleihau cyflymder cerbydau, na fu'n bosibl eu meintioli'n llawn ar lawer ohonynt.

Ar y sail hon, mae Gweinidogion o'r farn y bydd manteision y polisi yn drech na'r costau a'r anfanteision.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon